CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y Cyfarfod: **3 Rhagfyr 2026**

Teitl yr Eitem: **Adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor**

Swyddog Cyswllt: **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir yn **Atodiad A** gan ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

2. CEFNDIR A RHESYMEG

2.1. CYFLWYNIAD

2.1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ar **y 14 o Fai, 2026** fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Grŵp	Nifer
Plaid Cymru	44
Annibynnol	21
Gwynedd yn Gyntaf	2
Aelod Unigol	2
Cyfanswm	**69**

2.1.2 Ers hynny, mae newidiadau wedi bod fel a ganlyn:

- Mae'r Cynghorydd Gareth A Roberts wedi ymuno â grŵp Plaid Cymru, nid yw'n aelod unigol mwyach

2.1.3 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

Grŵp	Nifer
Plaid Cymru	45
Annibynnol	21
Gwynedd yn Gyntaf	2
Aelod Unigol	1
Cyfanswm	**69**

2.2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

(a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.2.2 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2.1 uchod hefyd.

2.3 NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.3.1 Mae'r rheolau a nodir yn 2.2.1 yn golygu newidiadau i'r dyraniad seddau ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn sgil yr adolygiad fel a ganlyn:

- Mae Grŵp Plaid Cymru yn ennill un sedd ar y pwyllgorau canlynol ar draul yr aelod unigol
  - Pwyllgor Iaith
  - CYSAG.

2.3.2 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn **Atodiad A**.

3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Ymgynghorwyd â Grŵp Busnes y Cyngor.

3.2 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU

A	Plaid Cymru	Annibynnol	Gwynedd yn Gyntaf	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	12	6	0	0	18
Pwyllgor Craffu Cymunedau	12	5	1	0	18
Pwyllgor Craffu Gofal	12	5	1	0	18
Llywodraethu ac Archwilio	8	4	0	0	12

B	Plaid Cymru	Annibynnol	Gwynedd yn Gyntaf	Aelod unigol	Cyfanswm
Gwasanaethau Democrataidd	9	4	1	1	15
Cynllunio	10	4	1	0	15
Trwyddedu Canolog/Cyf fredinol	10	5	0	0	15
Iaith	10	5	0	0	15
Penodi Prif Swyddogion	10	5	0	0	15
Apelau Cyflogaeth	5	2	0	0	7
Nifer y seddau	**98**	**45**	**4**	**1**	**148**

C	Plaid Cymru	Annibynnol	Gwynedd yn Gyntaf	Aelod Unigol	Cyfanswm
Pensiynau	4	2	1	0	7
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	6	4	0	1	11
CYSAG	5	2	0	0	7

Cyfanswm y seddau	**113**	**53**	**5**	**2**	**173**